Atal neu reoli salwch a achosir drwy ddod i gysylltiad ag anifeiliaid mewn atyniadau ymwelwyr

Yn cynnwys atodiad i athrawon ac eraill sy'n trefnu ymweliadau ar gyfer plant

Taflen wybodaeth HSE

Cyhoeddir y canllaw hwn gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Nid oes rhaid dilyn y canllaw a chewch gymryd camau eraill. Fodd bynnag, os dilynwch y canllaw byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae arolygwyr iechyd a diogelwch yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith a gallant gyfeirio at y canllaw hwn fel enghraifft o arfer da.

Cyflwyniad

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi cyngor i'r rhai sy'n gyfrifol am safleoedd lle mae aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys plant, yn cael eu hannog i edrych ar anifeiliaid, cyffwrdd â hwy neu eu hanwesu. Trefnir ymweliadau â'r safleoedd hyn yn bennaf at ddibenion hamdden neu addysg.

Ymhlith y safleoedd a gwmpesir gan y canllaw hwn mae:

- atyniadau fferm, e.e. ffermydd agored/parciau fferm;
- cilfachau anwesu/trin anifeiliaid mewn atyniadau eraill (gan gynnwys y rhai mewn sŵau ac ati);
- ffermydd dinas neu sefydliadau addysgol eraill;
- ffermydd gweithredol lle y ceir da byw sydd weithiau ar agor i'r cyhoedd, e.e. ar gyfer ymweliadau ysgol neu er mwyn cymryd rhan yn 'Dydd Sul Agored ar y Fferm' neu ddigwyddiadau tebyg;
- canolfannau bridiau prin a chanolfannau achub;
- sioeau amaethyddol neu ffeiriau gwlad lle y ceir da byw;
- sioeau anifeiliaid teithiol neu fentrau anwesu/trin anifeiliaid symudol;
- atyniadau ymwelwyr tebyg eraill lle mae'r cyhoedd yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid.

Er bod yr egwyddorion cyffredinol a drafodir yn y ddogfen hon yr un mor berthnasol i sŵau, ceir canllawiau penodol ar reoli milheintiau (a drosglwyddir o anifeiliaid i bobl) mewn sŵau yn *Managing zoonotic risk in zoos and wildlife parks* a gyhoeddir yn fuan.

Taflen Wybodaeth Amaethyddiaeth Rhif 23W(diw2)

Mae'r wybodaeth a geir yn y canllaw hwn wedi'i hanelu at berchenogion a rheolwyr atyniadau ymwelwyr sydd â dyletswyddau cyfreithiol o dan gyfraith iechyd a diogelwch (deiliaid dyletswyddau). Mae'n disgrifio'r camau y dylai deiliaid dyletswyddau eu cymryd i ddiogelu ymwelwyr. Bydd hefyd angen i ddeiliaid dyletswyddau sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol i ddiogelu iechyd a diogelwch eu staff, gan gynnwys eu cyflogeion, gwirfoddolwyr, cynorthwywyr ac ati.

Dylai athrawon ac eraill sy'n trefnu ymweliadau hefyd ddarllen yr atodlen sy'n rhan o'r cyngor hwn, i'w helpu i sicrhau nad yw plant yn mynd yn sâl o ganlyniad i'r ymweliadau. Efallai y bydd yn hwyluso'r broses asesu risg, y dylid ei chyflawni cyn i'r ymweliad ddigwydd.

Mae ymweliadau â'r safleoedd a gwmpesir gan y canllaw hwn yn chwarae rhan werthfawr yn addysg a datblygiad plant a phobl ifanc ac maent yn rhoi mwynhad i lawer o bobl. Anaml y bydd aelodau'r cyhoedd yn mynd yn sâl o ganlyniad i'r fath ymweliadau. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod am nifer gymharol fach o achosion difrifol o bobl yn mynd yn sâl o ganlyniad i ymweld â safleoedd.

Dylid cymryd yn ganiataol bod anifeiliaid mewn atyniadau ymwelwyr yn cario micro-organebau megis *Escherichia coli* O157 (a elwir yn aml yn *E coli* O157 neu VTEC) a *Cryptosporidium parvum*. Felly, fel gyda llawer o weithgareddau eraill, ni ellir byth ystyried nad oes safleoedd risg yn gysylltiedig ag ymweliadau â'r fath. Fodd bynnag, bydd gweithredu'r mesurau rheoli yn y canllaw hwn yn helpu i sicrhau bod y risg y caiff rhywun ei heintio drwy ddod i gysylltiad ag anifeiliaid yn fach.

'Perygl' a 'risg'

Yn y canllaw hwn defnyddir y term 'perygl' i ddisgrifio unrhyw beth a allai achosi niwed a defnyddir 'risg' i ddisgrifio'r posibilrwydd neu'r tebygolrwydd yr achosir niwed ynghyd â'i ddifrifoldeb.

Cefndir

Mae pob anifail yn naturiol yn cario ystod o ficro-organebau, y gellir trosglwyddo rhai ohonynt i bobl, lle y gallant achosi salwch, a all mewn rhai achosion fod yn ddifrifol neu beryglu bywyd.

Mae cryn dipyn o'r canllaw hwn yn cyfeirio'n benodol at y bacteriwm *E coli* O157 sy'n cynhyrchu ferosytotocsin am ei fod yn achosi perygl difrifol i iechyd pobl sy'n ymweld â'r fath safleoedd. Gall *E coli* O157 achosi salwch difrifol, yn enwedig mewn plant bach, lle y gall y symptomau gynnwys dolur rhydd gwaedlyd a methiant yr arennau.

Cydnabyddir mai gwartheg a defaid yw prif gludwyr *E coli* O157. Weithiau ceir yr organeb mewn anifeiliaid eraill, yn enwedig ymhlith y rhywogaethau cymysg a geir yn aml mewn atyniadau ymwelwyr. Mae'r rhain yn cynnwys geifr, moch, ieir, ceffylau, ceirw, lamas ac alpacas. Gall cŵn fferm a chwningod gwyllt gael yr haint o amgylchedd wedi'i heintio. Ceir heintiau hefyd mewn adar megis gwyddau gwyllt. Trosglwyddir yr organeb yn bennaf drwy ddod i gysylltiad â'u hysgarthion (tail).

Mae *Cryptosporidium parvum* yn ficro-organeb niweidiol arall. Parasit microsgopig ydyw a gludir gan loi, ŵyn, ceirw a geifr a gall achosi dolur rhydd difrifol mewn plant bach a'r henoed. Gall fyw am amser hir yn yr amgylchedd.

Gall pobl gael eu heintio ag *E coli* O157 neu *Cryptosporidium parvum* drwy fwyta bwyd halogedig neu yfed diod halogedig, drwy ddod i gysylltiad uniongyrchol ag anifeiliaid halogedig, neu drwy ddod i gysylltiad ag amgylchedd sydd wedi'i halogi ag ysgarthion anifeiliaid.

Gall niferoedd isel iawn o ficro-organebau heintio pobl ac felly mae'n bwysig bod y sawl sy'n gyfrifol am y safle yn rheoli'r risgiau i ymwelwyr.

Gall nifer o fesurau rheoli hanfodol helpu i leihau'r risg y caiff pobl, yn enwedig plant, eu heintio drwy ddod i gysylltiad ag ysgarthion a deunydd ysgarthol. Ymhlith y rhain mae:

- glanweithdra cyffredinol da o amgylch y safle;
- atal anifeiliaid rhag baeddu llwybrau a rhodfeydd;
- sicrhau bod gwasarn yn aros mewn corlannau;
- cludo a storio tail yn ofalus;
- hwsmonaeth anifeiliaid dda;
- gwahanu ardaloedd lle y daw pobl i gysylltiad ag anifeiliaid ac ardaloedd lle nad yw hynny'n digwydd;
- darparu cyfleusterau golchi dwylo digonol;
- gwybodaeth i staff ac ymwelwyr;
- goruchwylio cyswllt ag anifeiliaid a golchi dwylo yn gywir.

Bydd rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag *E coli* O157 a *Cryptosporidium parvum* hefyd yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhan fwyaf o organebau eraill a all gael eu trosglwyddo i bobl drwy lwybr y llaw i'r geg. Trafodir rhagofalon yn erbyn mathau eraill o filheintiau yn Nhaflen Wybodaeth HSE ar Amaethyddiaeth 2 (diw2) *Common zoonoses in agriculture*.

Y gyfraith

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 a rheoliadau iechyd a diogelwch cysylltiedig yn gosod dyletswyddau ar ystod eang o bobl (deiliaid dyletswyddau). Os agorwch eich safle i'r cyhoedd, yn cynnwys ar gyfer digwyddiadau elusennol, mae gennych ddyletswyddau o dan gyfraith iechyd a diogelwch.

COSHH

Mae *E coli* O157 a micro-organebau eraill a all achosi salwch yn ddarostyngedig i Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002 (fel y'u diwygiwyd). Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwr neu unigolyn hunangyflogedig wneud y canlynol:

- asesu'r risgiau i gyflogeion, pobl hunangyflogedig a'r cyhoedd o amlygiad i sylweddau peryglus, yn cynnwys micro-organebau;
- atal, neu, os nad yw hyn yn rhesymol ymarferol, reoli'n ddigonol amlygiad i sylweddau peryglus;
- cyflwyno a chynnal mesurau rheoli;
- rhoi gwybod i gyflogeion am y risgiau a'r rhagofalon y mae angen eu cymryd, ynghyd â rhoi cyfarwyddiadau a hyfforddiant arnynt;
- rhoi gwybod i ymwelwyr am y risgiau a'r rhagofalon y mae angen eu cymryd;
- cynnal adolygiadau rheolaidd o'r modd yr asesir mesurau rheoli a pha mor effeithiol ydynt.

Gellir cael canllawiau ar COSHH ar wefan HSE: www.hse.gov.uk/coshh/index.htm

Asesu'r risg

Wrth gynnal eich asesiad COSHH dylech:

- dybio bod pob anifail (gan gynnwys adar) yn cario micro-organebau megis *E coli* O157 a allai beryglu iechyd pobl. Gall anifeiliaid sy'n cario haint edrych yn iach o hyd;
- cofio bod anifeiliaid sy'n cnoi cil (e.e. gwartheg, defaid a geifr) yn cario *E coli* O157;
- ystyried bod *E coli* O157 hefyd i'w gael mewn ystod o anifeiliaid eraill, gan gynnwys moch, ceffylau, asynnod, ceirw, alpacas, lamas, cathod,

cŵn, cwningod gwyllt, ieir ac adar eraill;
- cydnabod, er bod profion ar gael i ganfod a yw anifeiliaid wedi'u heintio ag *E coli* O157 a micro-organebau eraill, nad yw canlyniad prawf negyddol yn gwarantu nad yw'r anifail wedi'i heintio am nad yw anifeiliaid wedi'u heintio yn gollwng y ficro-organeb drwy'r amser. Gall anifeiliaid a gafodd ganlyniad negyddol o'r blaen ddechrau ysgarthu'r organeb yn ddiweddarach;
- cydnabod y gall *E coli* O157 gael ei gyflwyno ar eich safle ar unrhyw adeg gan anifeiliaid newydd, adar ac anifeiliaid gwyllt neu ymwelwyr;
- cofio, wrth ddewis anifeiliaid i'w hanwesu/trin, fod anifeiliaid ifanc, anifeiliaid o dan straen neu anifeiliaid sy'n anghyfarwydd â phobl ac ati yn fwy tebygol o ysgarthu *E coli* O157;
- derbyn y gall anifeiliaid eraill ar y safle, gan gynnwys anifeiliaid anwes, gael y bacteriwm drwy ddod i gysylltiad ag ysgarthion ac ati.

Amlygiad i *E coli* O157

Dylech dybio bod eich anifeiliaid yn cario *E coli* O157 hyd yn oed os nad ydynt yn dangos unrhyw arwyddion eu bod wedi'u heintio. Gall yr organeb ledaenu i bobl drwy lwybr y llaw i'r geg, e.e. dwylo wedi'u halogi ag *E coli* O157 o ffynonellau ysgarthol yn dod i gysylltiad â'r geg. Mae risg benodol i blant, yn enwedig y rhai dan bump oed, am mai hwy sydd fwyaf tebygol o roi bysedd neu eitemau wedi'u halogi yn eu cegau (gan gynnwys sugno bawd, cnoi ewinedd a dymis/teganau). Dim ond niferoedd bach o'r bacteriwm sydd eu hangen i achosi salwch, felly nid yw'r ffaith na ellir gweld bod rhywbeth (anifail neu eitem) wedi'i halogi ag ysgarthion yn golygu, o reidrwydd, nad oes unrhyw risg yn gysylltiedig ag ef.

Gall pobl gael eu heintio pan fyddant yn dod i gysylltiad ag ysgarthion neu boer anifeiliaid drwy:

- gyffwrdd ag anifeiliaid neu eu cusanu mewn ardaloedd anwesu/trin neu wrth eu bwydo â photel;
- bwydo neu anwesu anifeiliaid neu gyffwrdd â hwy drwy gatiau neu gorlannau;
- cyffwrdd â gatiau, neu gorlannau anifeiliaid, neu strwythurau eraill sydd wedi'u halogi ag ysgarthion;
- codi bwyd anifeiliaid wedi'i halogi o'r llawr;
- tynnu esgidiau neu ddillad wedi'u halogi;
- bwyta, yfed ac ysmygu â dwylo wedi'u halogi;
- defnyddio cyfarpar chwarae wedi'u halogi; neu
- cyffwrdd ag eitemau personol yr aethpwyd â hwy ar y safle sydd wedi cael eu halogi, e.e. teganau neu ddymis a ollyngwyd ac olwynion cadeiriau gwthio.

Mesurau rheoli

Mesurau rheoli yw'r camau y mae angen eu cymryd i atal neu leihau amlygiad i sylwedd peryglus i iechyd, yn yr achos hwn micro-organebau. Mae'r fath fesurau yn cynnwys:

- cynllun y safle;
- glanhau'r safle;
- darparu a defnyddio cyfleusterau ymolchi;
- goruchwylio;
- gwybodaeth;
- arwyddion ac ati.

Yn ymarferol, bydd angen cyfuniad o fesurau rheoli i ddiogelu iechyd ymwelwyr. Er mwyn iddynt fod yn effeithiol, dylai'r mesurau hyn fod yn ymarferol ac yn gynaliadwy. Dylech eu hadolygu'n rheolaidd.

Rheoli'r risg

Er mwyn lleihau a rheoli'r risg dylech ganolbwyntio ar y canlynol:

- nodi cynllun a llwybrau'r safle, gan gynnwys ardaloedd nad oes gan ymwelwyr yr hawl i fynd iddynt;
- diffinio a gwahanu ardaloedd lle mae pobl yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid a'u nodi'n glir;
- diffinio a gwahanu ardaloedd lle nad yw pobl yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid a'u nodi'n glir;
- diffinio a gwahanu ardaloedd bwyta a chwarae a'u nodi'n glir;
- darparu cyfleusterau ymolchi digonol ac addas;
- rhoi gwybodaeth i ymwelwyr;
- darparu gwybodaeth ac arwyddion ar gyfer ymwelwyr;
- darparu hyfforddiant i staff a'u goruchwylio;
- sefydlu gweithdrefnau rheoli da byw, gan gynnwys rheoli gwasarn, anifeiliaid sâl/beichiog/o dan straen a mewnbwn milfeddygol;
- rheoli tail/dŵr ffo a thomenni compost.

Trafodir y rhain yn fanylach yn yr adrannau canlynol.

Cynllun a llwybrau'r safle

Dylech wneud y canlynol:

- penderfynu pa ardaloedd rydych am i'ch ymwelwyr allu mynd iddynt;
- gwneud yn siŵr bod y llwybrau o amgylch y safle yn atal ymwelwyr rhag mynd i ardaloedd nad oes ganddynt hawl i fynd iddynt, e.e. rhannau o'r safle lle mae gwaith yn cael ei wneud neu lle mae tail yn cael ei storio ac ati;

- ystyried sut y byddwch yn atal ymwelwyr rhag mynd i ardaloedd nad oes ganddynt hawl i fynd iddynt, e.e. drwy ddarparu ffensys addas ac arwyddion rhybuddio;
- cyfeirio ymwelwyr at gyfleusterau ymolchi wrth iddynt adael unrhyw ardal lle maent yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid, cyn iddynt fynd i ardaloedd bwyta a chwarae a chyn gadael y safle;
- osgoi cyfeirio ymwelwyr ar draws llwybrau a ddefnyddir yn rheolaidd gan anifeiliaid a cherbydau fferm. Os nad yw hyn yn bosibl sicrhewch nad oes rhaid i ymwelwyr gerdded drwy unrhyw ysgarthion, elifion hylifol neu wasarn wedi'i faeddu sydd wedi cronni. Er enghraifft, ewch ati'n rheolaidd i glirio neu lanhau llwybrau a ddefnyddir gan dda byw neu pan fyddwch yn carthu corlannau ac ati, a darparwch ystyllod neu rywbeth tebyg fel y gall ymwelwyr osgoi halogi eu hesgidiau;
- cadw'r safle mor lân ag sy'n ymarferol a sicrhau nad oes ysgarthion wedi cronni yn yr ardaloedd y gall ymwelwyr fynd iddynt.

Dod i gysylltiad ag anifeiliaid

Dylech wneud y canlynol:

- penderfynu ar ardaloedd cyswllt addas lle y bydd ymwelwyr yn gallu anwesu/trin a bwydo anifeiliaid;
- penderfynu pa anifeiliaid sy'n addas ar gyfer ardaloedd cyswllt;
- peidio â chaniatáu i'r cyhoedd fynd i mewn i gorlannau anifeiliaid (am y bydd ysgarthion neu wasarn wedi'i halogi o dan eu traed ac mae'n bosibl bod yr ymwelwyr eu hunain yn cario heintiau ar eu hesgidiau a allai beryglu eich anifeiliaid);
- sicrhau bod cyfleusterau ymolchi digonol ac addas ar gael a'u bod yn cael eu defnyddio gan ymwelwyr pan fyddant yn gadael ardaloedd cyswllt;
- sicrhau y caiff ffensys ac atalfeydd eraill eu harchwilio'n rheolaidd a'u cynnal a'u cadw'n gywir;
- sicrhau bod cyn lleied â phosibl o ysgarthion mewn ardaloedd cyswllt ag anifeiliaid lle mae ymwelwyr yn sefyll neu'n cerdded a rhoi mesurau ar waith i'w hatal rhag cael eu halogi gan dail hylifol neu ddŵr wyneb ffo, lle y bo angen;
- glanhau a diheintio corlannau a gatiau yn ôl yr angen mewn ardaloedd cyswllt ag anifeiliaid lle y gall ymwelwyr gyffwrdd â hwy;
- peidio â gadael i ysgarthion aros ar rodfeydd nac ardaloedd eraill a ddefnyddir gan yr ymwelwyr a'u halogi;
- peidio â gadael i wasarn na deunydd ffo wedi'i halogi halogi rhodfeydd nac ardaloedd eraill a ddefnyddir gan ymwelwyr;
- sicrhau bod bwyta (gan gynnwys losin, gwm a hufen iâ), yfed, rhoi eitemau wedi'u halogi yn y geg (gan gynnwys dymis) ac ysmygu wedi'u gwahardd mewn ardaloedd lle mae pobl yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid (dylech arddangos arwyddion sy'n hysbysu ymwelwyr o'r gofyniad hwn);
- sicrhau bod digon o staff hyfforddedig ar gyfer ardaloedd lle mae pobl yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid;
- sicrhau, os yw ardaloedd bwyta a chwarae gerllaw ardaloedd sy'n cynnwys anifeiliaid, y rhoddir mesurau ar waith i atal aelodau'r cyhoedd rhag cyffwrdd ag anifeiliaid, e.e. drwy ddarparu ffensys dwbl. Dylech sicrhau bod digon o fwlch rhwng y ffensys i atal ymwelwyr rhag estyn llaw drwyddynt i gyffwrdd â'r anifeiliaid ac atal anifeiliaid rhag estyn dros y ffens neu drwyddi i gyffwrdd â phobl.

Mewn rhai ardaloedd lle nad yw pobl yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid, ni fydd yn rhesymol ymarferol darparu ffensys dwbl ar hyd llociau lle y cedwir anifeiliaid. Ymhlith yr enghreifftiau mae: ffermydd da byw sydd ar agor weithiau, e.e. Dydd Sul Agored ar y Fferm; ac ar hyd rhodfa/llwybr fferm drwy gaeau. Mewn achosion o'r fath, dylid arddangos arwyddion clir yn yr ardaloedd i hysbysu ymwelwyr eu bod yn mynd i mewn i ardal lle na ddylai pobl ddod i gysylltiad ag anifeiliaid ac na chaniateir cyffwrdd ag anifeiliaid, eu hanwesu/trin na'u bwydo. Dylai ardaloedd bwyta a chwarae fod wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle nad yw pobl yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid. Mae'n rhaid cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i ddibynnu ar ffensys sengl ac arwyddion yn hytrach na ffensys dwbl yn eich asesiad risg.

Ardaloedd bwyta

Dylech wneud y canlynol:

- lleoli cyfleusterau bwyta neu bicnic i ffwrdd oddi wrth ardaloedd lle y gellir dod i gysylltiad ag anifeiliaid, ac yn ddelfrydol ar ben unrhyw lwybr, rhodfa neu daith fferm, neu y tu allan i brif ardaloedd y safle;
- sicrhau bod yn rhaid i ymwelwyr fynd drwy gyfleusterau ymolchi neu fynd heibio iddynt cyn mynd i ardaloedd bwyta;
- sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu cynghori, e.e. gan arwyddion digonol, i olchi eu dwylo cyn bwyta;
- cadw eich anifeiliaid, gan gynnwys adar caeth, allan o ardaloedd bwyta. Gallent halogi ardaloedd bwyta ag ysgarthion. Ystyriwch docio adenydd, gosod gatiau dwbl i mewn i ardaloedd bwyta a defnyddio digon o ffensys i'w cadw allan;
- sicrhau, os yw ardaloedd bwyta gerllaw ardaloedd lle mae pobl yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid, nad yw pobl yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid, e.e. drwy ddarparu ffensys dwbl. Dylech sicrhau bod digon o fwlch rhwng y ffensys i atal ymwelwyr rhag estyn llaw drwyddynt i gyffwrdd â'r anifeiliaid ac atal anifeiliaid rhag estyn dros y ffens neu drwyddi i gyffwrdd â phobl.
- darparu digon o finiau gwastraff a chlirio bwyd a daflwyd o ardaloedd bwyta fel na ddaw adar gwyllt na llygod i'w fwyta a halogi'r ardal;
- gosod ciosgau hufen iâ a/neu losin ac ati yn y

rhannau o'r safle lle na ddaw pobl i gysylltiad ag anifeiliaid, fel yr ardaloedd bwyta neu wrth yr allanfa lle mae ymwelwyr wedi mynd heibio i gyfleusterau ymolchi, ac atgoffa ymwelwyr sy'n defnyddio'r ciosgau, drwy hysbysiadau neu ar lafar, i olchi eu dwylo cyn bwyta neu gyffwrdd â bwyd neu losin a brynwyd.

Ardaloedd chwarae

Dylech wneud y canlynol:

- lle y bo'n bosibl, lleoli ardaloedd chwarae i ffwrdd oddi wrth ardaloedd lle y gellir dod i gysylltiad ag anifeiliaid, ac yn ddelfrydol ar ben unrhyw lwybr, rhodfa neu daith fferm, neu y tu allan i brif ardaloedd y safle;
- sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu cynghori, e.e. gan arwyddion digonol, i olchi eu dwylo cyn ac ar ôl defnyddio ardaloedd chwarae;
- cadw eich anifeiliaid, gan gynnwys adar caeth, allan o ardaloedd chwarae. Gallent halogi ardaloedd a chyfarpar chwarae ag ysgarthion. Ystyriwch docio adenydd adar, gosod gatiau dwbl i mewn i ardaloedd chwarae a defnyddio digon o ffensys i'w cadw allan;
- sicrhau, os yw ardaloedd chwarae gerllaw ardaloedd lle mae pobl yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid, nad yw pobl yn dod i gysylltiad ag anifeiliaid, e.e. drwy ddarparu ffensys dwbl. Dylech sicrhau bod digon o fwlch rhwng y ffensys i atal ymwelwyr rhag estyn llaw drwyddynt i gyffwrdd â'r anifeiliaid ac atal anifeiliaid rhag estyn dros y ffens neu drwyddi i gyffwrdd â phobl;
- sicrhau bod ardaloedd chwarae yn cael eu glanhau'n rheolaidd i gael gwared ag unrhyw halogiad.

Cyfleusterau ymolchi

Er y dylai'r prif fesurau rheoli ganolbwyntio ar leihau halogiad ysgarthol a chael gwared arno, golchi dwylo â sebon a dŵr rhedeg oer a phoeth neu gynnes yw'r dull mwyaf effeithiol o gael gwared ar faw a halogiad o hyd.

Dylech ddarparu cyfleusterau ymolchi, h.y. sebon a dŵr rhedeg, wrth allanfeydd unrhyw ardal/safle lle yr anogir ymwelwyr i ddod i gysylltiad ag anifeiliaid neu'n agos atynt. **Ni ddylid defnyddio hancesi glanhau na geliau gwrthfacterol yn lle golchi dwylo'n gywir.**

Mewn digwyddiadau dros dro, megis sioeau amaethyddol lle y darperir cyfleusterau ymolchi parhaol addas, e.e. bloc toiledau ac ymolchi a adeiladwyd i'r diben, mae'n dderbyniol i arddangoswyr anifeiliaid neu eraill ddarparu gwybodaeth ac arwyddion i nodi y dylai ymwelwyr ddefnyddio'r cyfleusterau hyn ar ôl dod i gysylltiad â'r anifeiliaid. Os na cheir y fath gyfleusterau ymolchi cyffredinol ar gyfer ymwelwyr neu os nad ydynt wedi'u lleoli gerllaw, bydd angen darparu cyfleusterau ymolchi dros dro addas. Yn ddelfrydol, dylech leoli cyfleusterau ymolchi gerllaw ardaloedd lle y caniateir i bobl ddod i gysylltiad ag anifeiliaid.

Mae canllawiau pellach ar ddarparu cyfleusterau ymolchi mewn sioeau amaethyddol wrthi'n cael eu trafod â'r diwydiant.

Mae darparu digon o gyfleusterau a'u lleoliad yn hollbwysig i atal salwch. Gall cyfleusterau fod yn dapiau a basnau unigol a/neu'n sinciau hir sydd â nifer o allfeydd dŵr rhedeg. Mae angen eu darparu a sicrhau eu bod yn hawdd eu cyrraedd wrth y canlynol neu'n agos atynt:

- ardaloedd lle y bwriedir i bobl ddod i gysylltiad ag anifeiliaid (ysguboriau anwesu/trin anifeiliaid ac ati). Os oes system unffordd i ymwelwyr drwy'r ardal gyswllt dylid eu darparu'n union wrth yr allanfa; os oes llif dwyffordd o ymwelwyr dylid eu darparu'n union wrth y fynedfa a'r allanfa. Gall system unffordd helpu i sicrhau y defnyddir cyfleusterau ymolchi yn gywir;
- mynedfeydd i ardaloedd bwyta;
- yr allanfa o'r safle.

Cyfleusterau ymolchi

Un ffordd dderbyniol o amcangyfrif capasiti'r cyfleusterau ymolchi yw:

- amcangyfrif y nifer fwyaf o ymwelwyr a ddisgwylir neu a ganiateir ar un adeg;
- ystyried faint o ymwelwyr fydd mewn ardaloedd lle y daw pobl i gysylltiad ag anifeiliaid ar unrhyw adeg - efallai eich bod eisoes yn cyfyngu ar nifer yr ymwelwyr yn yr ardaloedd hyn er mwyn rhoi amser iddynt fwynhau'r profiad o fod gyda'r anifeiliaid;
- asesu ar ba gyfradd y bydd ymwelwyr yn gadael ardaloedd cyswllt, e.e. mewn grwpiau mawr fel partïon ysgol neu ychydig ar y tro;
- amcangyfrif yr amser y mae'n ei gymryd i olchi dwylo yn iawn, gan gofio y gall golchi dwylo'n drylwyr gymryd hyd at ddwy funud.

Os amcangyfrifwch, er enghraifft, y bydd 30 o bobl yn gadael ardal gyswllt bob 15 munud, a bod pob unigolyn yn cymryd dwy funud i olchi ei ddwylo, dylech ddarparu digon o gyfleusterau ymolchi i bedwar o bobl eu defnyddio ar unrhyw un adeg (30 x 2 wedi ei rannu â 15 = 4). Gwnewch gyfrifiadau tebyg ar gyfer lleoliadau eraill o amgylch y safle, e.e. wrth brif fynedfeydd neu allanfeydd yr ardaloedd bwyta.

Gallwch ychwanegu at gyfleusterau parhaol ar adegau prysur drwy osod rhai dros dro, e.e. ychydig cyn gwyliau haf, mewn rhannau anghysbell o'r safle, neu ar gyfer digwyddiadau sy'n para cyfnod byr, e.e. sioeau gwlad neu ffeiriau. Gellir llogi unedau cludadwy sydd â system wresogi, goleuadau a dŵr rhedeg.

Dylai pob cyfleuster ymolchi:

- fod yn hygyrch i bob ymwelydd, h.y. ar yr uchder cywir i blant ac oedolion neu gyda mannau sefyll uwch i blant. Gwnewch yn siŵr nad ydynt yn creu peryglon o ran baglu neu syrthio;
- bod â dŵr oer a phoeth neu gynnes (e.e. tapiau cymysgu). Mae'n haws creu trochion sebon gyda dŵr cynnes a gall annog ymwelwyr, yn enwedig plant, i olchi'u dwylo'n fwy trylwyr, yn enwedig mewn tywydd oer. Dylai fod dyfais i atal tymheredd y cyflenwad dŵr cynnes rhag codi'n uwch na 43°C er mwyn osgoi llosgi;
- darparu sebon hylifol. Nid oes angen sebon bacterleiddiol;
- darparu tywelion papur. Mae peiriannau sychu dwylo aer poeth yn addas ond gallant greu ciwiau sy'n annog ymwelwyr i beidio â golchi'u dwylo. Nid yw tywelion llaw y gellir eu defnyddio eto yn addas;
- cael eu cynnal a'u cadw a'u glanhau'n gywir ac yn rheolaidd yn ôl yr angen, o leiaf unwaith y dydd;
- cael eu hailgyflenwi â thywelion papur a sebon yn ôl yr angen;
- cynnwys biniau gwastraff agored neu finiau gwastraff pedal sy'n cael eu gwagio yn ôl yr angen;
- cael eu trefnu fel nad yw'r llif o ymwelwyr a/neu ddŵr yn gorlifo ac ati yn gwneud yr ardal oddi amgylch yn fwdlyd gan beri i bobl beidio â defnyddio'r cyfleusterau ymolchi.

O dan amgylchiadau eithriadol, megis safle sy'n agor o bryd i'w gilydd yn ystod yr haf, gall fod yn dderbyniol darparu dŵr rhedeg oer yn unig, ynghyd â sebon a thywelion untro. Mae'n rhaid i chi gyfiawnhau hyn yn eich asesiad risg.

Peidiwch â darparu bwcedi na chafnau o ddŵr llonydd a gaiff eu rhannu neu eu hailddefnyddio gan sawl unigolyn - nid ydynt yn galluogi pobl i olchi'u dwylo yn effeithiol a gall ailddefnyddio dŵr ledaenu micro-organebau ymhlith y rhai sy'n ei ddefnyddio. Nid yw ychwanegu diheintydd at y dŵr yn gwneud yr arfer yn dderbyniol.

Mae'n bwysig annog eich staff, rhieni, athrawon ac eraill sy'n gyfrifol am ymwelwyr i sicrhau bod plant ac ymwelwyr eraill yn golchi eu dwylo'n gywir.

Glanhau esgidiau, cadeiriau gwthio, cadeiriau olwyn ac ati

Dylech sicrhau y bydd eich cynllun arfaethedig yn lleihau'r tebygolrwydd y caiff esgidiau, cadeiriau gwthio, cadeiriau olwyn ac ati eu halogi. Os na ellir osgoi hyn, bydd angen i chi ystyried darparu cyfleusterau addas i alluogi ymwelwyr i lanhau esgidiau wedi'u halogi ac olwynion wedi'u halogi ar gadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn. Dylid trefnu'r cyfleusterau hyn i leihau'r risg y caiff yr unigolyn ei halogi gan dail, hylif ffo ac ati yn ystod y broses lanhau a'u lleoli fel y gall pobl olchi eu dwylo'n hawdd unwaith y bydd hyn wedi'i wneud.

Gwybodaeth ac arwyddion i ymwelwyr

Dylid rhoi gwybodaeth i ymwelwyr am y canlynol:

- risgiau i iechyd;
- rhagofalon a gymerir i leihau risgiau;
- cyfrifoldebau personol ymwelwyr o ran lleihau risgiau, gan gynnwys rhagofalon o ran hylendid;
- cynllun y safle, map, cyfarwyddiadau llwybrau neu wybodaeth arall yn ôl yr angen.

Dylid cynnwys y wybodaeth:

- ar wefan yr atyniad;
- ar fapiau/cynlluniau'r safle neu daflenni eraill a roddir i ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd.

Dylid darparu taflenni neu becynnau cyn ymweld i ysgolion a grwpiau eraill a drefnwyd i helpu athrawon ac eraill i gynllunio'r ymweliad.

Cofiwch:

- Dylai gwybodaeth gynnwys hysbysiadau wrth bob mynedfa i'r safle i atgoffa ymwelwyr o'r angen am hylendid personol da, a dylai ofyn iddynt fwyta ac yfed yn y mannau dynodedig yn unig.
- Ystyriwch daflenni a sticeri i ymwelwyr ac ati am olchi dwylo.
- Dylid codi arwyddion mewn mannau priodol yn atgoffa ymwelwyr i olchi eu dwylo wrth adael ardaloedd lle y daw pobl i gysylltiad ag anifeiliaid, cyn bwyta, ac wrth adael y safle.
- Dylai fod gan gyfleusterau ymolchi arwyddion sy'n dangos sut i olchi dwylo'n gywir.
- Efallai y bydd gan blant bach ddymis neu deganau y maent yn eu rhoi yn eu cegau. Dylech atgoffa oedolion sy'n gofalu amdanynt i beidio â rhoi dymis sydd wedi syrthio i'r ddaear yn ôl yng nghegau eu plant.
- Gall pictogramau, dyfeisiau sain, fideos cylch parhaus neu gyfryngau eraill fod yn ddefnyddiol.
- Dylai gwybodaeth fod yn ddarllenadwy ac efallai y bydd angen ei darparu mewn ieithoedd heblaw am Saesneg.

Hyfforddiant a goruchwyliaeth

Dylech wneud y canlynol:

- sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant a chyfarwyddiadau ar y risgiau i iechyd pobl sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid a'r mesurau rheoli angenrheidiol. Cofiwch y dylid darparu hyfforddiant hefyd i staff dros dro neu staff tymhorol a gyflogir yn ystod cyfnodau prysur;
- sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant a chyfarwyddiadau ar yr hyn y dylai ymwelwyr ei wneud a'r hyn na ddylent ei wneud;

- rhoi canllawiau i staff ar sut i esbonio'r neges hylendid i'r ymwelwyr, gan gynnwys pwysigrwydd golchi dwylo'n drylwyr, yn enwedig yn achos plant;
- trefnu lefelau digonol a phriodol o oruchwyliaeth mewn ardaloedd lle y daw pobl i gysylltiad ag anifeiliaid. Bydd nifer y goruchwylwyr yn dibynnu ar faint yr ardal lle y daw pobl i gysylltiad ag anifeiliaid a nifer yr ymwelwyr a ganiateir neu a ddisgwylir yn yr ardal honno ar unrhyw adeg;
- sicrhau y caiff plant eu goruchwylio wrth iddynt olchi eu dwylo. Er mai cyfrifoldeb rhieni neu athrawon yw hyn, mewn rhai achosion efallai y bydd angen i staff helpu i oruchwylio plant;
- atgoffa goruchwylwyr mewn ardaloedd lle y daw pobl i gysylltiad ag anifeiliaid (a all fod yno hefyd i warchod yr anifeiliaid) fod angen sicrhau nad yw ymwelwyr yn bwyta, yn yfed nac yn rhoi eitemau yn eu cegau yn yr ardaloedd hyn;
- sicrhau bod goruchwylwyr yn annog ymwelwyr (yn enwedig plant) i beidio â rhoi eu bysedd yn eu cegau na chusanu'r anifeiliaid;
- sicrhau bod eich staff eich hun yn ymwybodol o bwysigrwydd hylendid personol da, e.e. golchi eu dwylo eu hunain yn drylwyr, pan fo angen, a pheidio â bwyta nac yfed mewn ardaloedd lle y daw pobl i gysylltiad ag anifeiliaid.

Gweithdrefnau rheoli da byw

Dylech wneud y canlynol:

- ystyried llunio cynllun iechyd anifeiliaid neu fferm mewn ymgynghoriad â'ch milfeddyg i helpu i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â milheintiau;
- asesu a yw anifeiliaid yn iach cyn eu symud i ardaloedd lle y daw pobl i gysylltiad ag anifeiliaid, ond cofiwch nad yw arwyddion o salwch yn amlwg mewn anifeiliaid sy'n cario *E coli* O157;
- peidio â rhoi anifeiliaid sydd newydd roi genedigaeth, neu sydd newydd gael eu geni, mewn ardaloedd lle y daw pobl i gysylltiad ag anifeiliaid;
- symud anifeiliaid sy'n dangos arwyddion o salwch, megis dolur rhydd neu straen, ar unwaith o ardaloedd lle y daw pobl i gysylltiad ag anifeiliaid nes y byddant wedi gwella a cheisio gofal a chyngor milfeddygol yn ddi-oed;
- cadw anifeiliaid a'u hadeiladau'n lân;
- ystyried a all anifeiliaid newydd ddod o'r tu mewn i'r safle yn hytrach na dod â hwy i mewn (byddai hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y câi heintiau newydd eu cyflwyno i'r fferm yn anfwriadol);
- lle y bo'n bosibl, dylech gael da byw newydd (yn enwedig anifeiliaid ifanc i'w bwydo â photel) gan gyflenwr ag enw da sydd â statws iechyd hysbys, lle y bydd y ceidwad stoc wedi sicrhau eu bod wedi cael cyflenwad digonol o golostrwm ar ôl cael eu geni;
- ceisio sicrhau bod anifeiliaid o wahanol grwpiau yn cael eu symud a'u cymysgu cyn lleied â phosibl (mae hyn yn arbennig o bwysig i gwtogi cymaint â phosibl ar ollwng *E coli* O157 gan anifeiliaid sy'n cnoi cil megis gwartheg a defaid);
- archwilio pob anifail sy'n cael ei arddangos yn rheolaidd am arwyddion o salwch, gan ymgynghori â'ch milfeddyg yn ôl yr angen;
- gwagio a glanhau cafnau dŵr yn rheolaidd a rhoi dŵr yfed glân i'r anifeiliaid.

Tomenni tail a chompost

Dylech wneud y canlynol:

- gosod tomenni tail neu gompost i ffwrdd o ardaloedd y gall ymwelwyr fynd iddynt, neu roi ffensys o'u hamgylch;
- atal neu reoli unrhyw hylif ffo pe gallai halogi ardaloedd ymwelwyr;
- peidio â gadael i ymwelwyr fagio'u compost neu dail eu hunain.

Cyngor ychwanegol

Ceir rhagor o gyngor ar *E coli* O157, gan gynnwys fideo ar olchi dwylo, yn: www.hse.gov.uk/campaigns/farmsafe/ecoli.htm

Ffynonellau cyngor i ddeiliaid dyletswyddau

Mae'r Rhwydwaith Atyniadau Ffermydd Cenedlaethol (www.farmattractions.net), Ffederasiwn Ffermydd Dinas a Gerddi Cymunedol (www.farmgarden.org.uk), Addysg Ffermio a Chefn Gwlad (www.face-online.org.uk) a Ffermydd i Ysgolion (www.farmsforschools.org.uk) i gyd yn darparu cyngor a gwasanaethau eraill. Ystyriwch ddefnyddio'r cynlluniau sicrwydd neu arolygu a gaiff eu cynnal gan rai o'r sefydliadau hyn.

Os yw'r safle yn rhan o fferm fasnachol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fydd hwn fel arfer: www.hse.gov.uk; mewn achosion eraill yr awdurdod lleol ar gyfer eich ardal fydd y corff perthnasol: www.direct.gov.uk/en/Dl1/Directories/Localcouncils/index.htm

Ceir cyngor arall ar nifer o wefannau eraill y llywodraeth gan gynnwys:

www.hpa.org.uk/
www.hps.scot.nhs.uk/
www.dh.gov.uk/en/index.htm
ww2.defra.gov.uk/

Gall milfeddygon hefyd roi cyngor ar reoli heintiau mewn anifeiliaid y gellir eu trosglwyddo i bobl (gweler y llyfr ffôn am gysylltiadau).

Rhagor o wybodaeth

I gael gwybodaeth am iechyd a diogelwch, neu i roi gwybod am anghysondebau neu gamgymeriadau yn y canllaw hwn, ewch i www.hse.gov.uk/. Gallwch weld canllawiau HSE ar-lein ac archebu cyhoeddiadau sydd ar werth ar y wefan. Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth hefyd ar gael mewn siopau llyfrau.

Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad oes rhaid i chi eu dilyn ond a allai fod yn ddefnyddiol wrth ystyried beth y mae angen i chi ei wneud.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: www.hse.gov.uk/pubns/ais23W.pdf

© ⓗ *Hawlfraint y Goron* Os hoffech ailddefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.hse.gov.uk/copyright.htm am fanylion. Cyhoeddwyd gyntaf 03/11.

Cyngor i athrawon ac eraill sy'n trefnu ymweliadau ar gyfer plant

Taflen wybodaeth HSE

AISW Rhif 23 Atodiad (diw2)

Mae'r atodiad hwn i AIS23W *Atal neu reoli salwch a achosir drwy ddod i gysylltiad ag anifeiliaid mewn atyniadau ymwelwyr* yn rhoi cyngor i athrawon ac eraill sy'n trefnu ymweliadau gan blant ar y rhagofalon y mae angen eu cymryd i leihau'r risg y bydd rhywun yn mynd yn sâl o ganlyniad i ddod i gysylltiad ag anifeiliaid.

Mae pob anifail yn naturiol yn cario ystod o ficro-organebau, y gellir trosglwyddo rhai ohonynt i bobl, lle y gallant achosi salwch. Mae perygl difrifol i iechyd yn gysylltiedig â rhai o'r micro-organebau hyn, megis bacteriwm *Escherichia coli* O157 (*E coli* O157) neu *Cryptosporidium parvum* (parasit microscopig), a gallent achosi salwch a phroblemau iechyd difrifol a all fod yn arbennig o acíwt mewn plant bach.

Fel gyda llawer o weithgareddau addysgol neu hamdden eraill, ni ellir byth ystyried nad oes risg yn gysylltiedig ag ymweliadau. Fodd bynnag, er bod y peryglon yn rhai gwirioneddol, gall cymryd camau syml bob dydd reoli'r risg y caiff plant eu heintio. Bydd y camau ymarferol canlynol yn helpu i wneud eich ymweliad hyd yn oed yn fwy diogel, iach a phleserus.

Cyn eich ymweliad, dylech wneud y canlynol:

- darllen a deall y cyngor ym mhrif daflen wybodaeth AIS23W a thrafod trefniadau'r ymweliad gyda rheolwyr y safle;
- cadarnhau bod y mesurau rheoli sydd ar waith ar y safle yn cyfateb i'r argymhellion yn AIS23W;
- ceisio cyngor gan eich awdurdod lleol neu sefydliad ar y gymhareb briodol o blant i athrawon/arweinwyr/cynorthwywyr/rhieni ac ati;
- gyda'r goruchwylwyr, rhieni neu staff yr ysgol neu feithrinfa, arweinwyr sefydliadau ieuenctid ac ati, trafod a chytuno ar eu rôl a'u cyfrifoldebau yn ystod yr ymweliad. Yn benodol, mae'n rhaid iddynt ddeall yr angen i sicrhau bod y plant yn golchi, neu'n cael help i olchi, eu dwylo'n drylwyr ar ôl dod i gysylltiad â'r anifeiliaid. Ymhlith y pwyntiau allweddol y dylid eu trafod â'r plant mae:
  - esbonio'r rheolau ar gyfer yr ymweliad, gan bwysleisio na ddylent fwyta, yfed na chnoi unrhyw beth (gan gynnwys losin) y tu allan i'r ardaloedd lle rydych yn caniatáu iddynt wneud hynny;
  - esbonio pam mae'n rhaid iddynt olchi eu dwylo'n drylwyr ar ôl dod i gysylltiad â'r anifeiliaid a chyn bwyta neu yfed unrhyw beth;
  - dangos sut i olchi eu dwylo'n gywir;
  - trafod y gofynion o ran dillad priodol, gan gynnwys esgidiau addas. Dylech holi'r atyniad ynghylch y gofynion hyn;
  - sicrhau bod gorchudd gwrth-ddŵr ar ddwylo plant os oes ganddynt doriadau, crafiadau ac ati.

Yn ystod ac ar ôl yr ymweliad, sicrhewch:

- fod y plant yn cael eu hatgoffa o'r rheolau/rhagofalon i'w cymryd ar ôl cyrraedd y safle;
- nad yw'r plant yn cusanu'r anifeiliaid;
- bod y plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr cyn ac ar ôl bwyta, ar ôl dod i unrhyw gysylltiad ag anifeiliaid ac unwaith eto cyn gadael y safle;
- mai dim ond bwyd y maent wedi dod ag ef gyda hwy, neu fwyd i'w fwyta gan bobl y maent wedi'i brynu ar y safle a fwyteir, a hynny mewn ardaloedd dynodedig, ac nad ydynt byth yn bwyta bwyd sydd wedi syrthio i'r ddaear nac yn blasu bwydydd anifeiliaid;
- nad yw'r plant yn sugno bysedd nac yn rhoi dwylo, beiros, pensiliau na chreonau ac ati yn eu cegau;
- lle y bo'n ymarferol ac yn bosibl, glanhau neu newid eu hesgidiau cyn gadael;
- golchi eu dwylo ar ôl newid eu hesgidiau.

Sicrhewch fod y plant yn aros yn eu grwpiau dynodedig yn ystod yr ymweliad, ac

- nad ydynt yn defnyddio nac yn codi offer (e.e. rhawiau a ffyrch) nac yn cyffwrdd â chyfarpar gwaith arall oni fydd staff y safle yn caniatáu iddynt wneud hynny;
- nad ydynt yn dringo ar waliau, ffensys, gatiau na chorlannau anifeiliaid ac ati;
- eu bod yn gwrando'n ofalus ac yn dilyn y cyfarwyddiadau a'r wybodaeth a roddir gan staff y safle;
- eu bod yn agosáu at yr anifeiliaid ac yn eu trin yn dawel ac yn dyner;
- nad ydynt yn rhedeg ar ôl yr anifeiliaid nac yn eu dychryn na'u pryfocio;
- nad ydynt yn crwydro i ardaloedd heb oruchwyliaeth neu ardaloedd gwaharddedig, e.e. tomenni tail.

Cofiwch:

- **eich cyfrifoldeb chi yw'r plant yn ystod yr ymweliad;**
- dylech eu goruchwylio yn ystod yr ymweliad, yn enwedig wrth iddynt olchi eu dwylo i sicrhau bod pob plentyn yn golchi ei ddwylo'n drylwyr. Efallai y bydd staff y safle yn gallu helpu gyda'r gwaith goruchwylio hwn;
- caniatewch ddigon o amser cyn bwyta neu adael fel nad oes rhaid i'r plant ruthro.

Os bydd aelod o'ch grŵp yn teimlo'n anhwylus (e.e. salwch neu ddolur rhydd) ar ôl ymweld â safle, cynghorwch ef neu ei riant/gwarcheidwad i fynd at y meddyg ac egluro ei fod wedi bod mewn cysylltiad ag anifeiliaid yn ddiweddar.

Cyngor ychwanegol

Ceir rhagor o gyngor ar *E coli* O157, gan gynnwys fideo ar olchi dwylo, yn: www.hse.gov.uk/campaigns/farmsafe/ecoli.htm

Ceir cyngor arall ar nifer o wefannau eraill y llywodraeth gan gynnwys:

www.hpa.org.uk/
www.hps.scot.nhs.uk/
www.dh.gov.uk/en/index.htm
ww2.defra.gov.uk/

Rhagor o wybodaeth

I gael gwybodaeth am iechyd a diogelwch, neu i roi gwybod am anghysondebau neu gamgymeriadau yn y canllaw hwn, ewch i www.hse.gov.uk/. Gallwch weld canllawiau HSE ar-lein ac archebu cyhoeddiadau sydd ar werth ar y wefan. Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth hefyd ar gael mewn siopau llyfrau.

Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad oes angen eu dilyn ond a allai fod yn ddefnyddiol wrth ystyried beth y mae angen i chi ei wneud.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: www.hse.gov.uk/pubns/ais23W.pdf

© ⓗ *Hawlfraint y Goron* Os hoffech ailddefnyddio'r wybodaeth hon ewch i www.hse.gov.uk/copyright.htm am fanylion. Cyhoeddwyd gyntaf 03/11.